Rhif: WG38771

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ynghylch newidiadauydref i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru 2020

Dyddiad cyhoeddi: 10 Iau 2020
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 2 Hydref 2020

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

Trosolwg

Rydym nawr yn ymgynghori ynghylch newidiadau i Gynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (Cymru) (sef Cynllun 1992) a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (sef Cynllun Digolledu 2007), a hynny yn dilyn y dyfarniad yn y Goruchaf Lys yn achos Walker v Innospec, sydd wedi arwain at newidiadau angenrheidiol i fuddion goroeswr ar gyfer partneriaid sifil a gŵr neu wraig o'r un rhyw. Credwn hefyd fod dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos McLaughlin wedi effeithio ar hawliau pensiwn plant rhieni dibriod felly mae angen newidiadau i Gynllun Digolledu 2007 o ganlyniad i hynny.

Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin hefyd â newidiadau digyswllt arfaethedig i Gynllun 1992, Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cynllun 2007), a Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 (Cynllun 2015) mewn perthynas â chyfrifo pensiynau o ddwy ffynhonnell, rhannu pensiwn wrth ysgaru, ffactorau cymudo aelodau arbennig a thaliadau gwerth trosglwyddo clwb.

Sut i ymateb

I ymateb i'r ymgynghoriad hwn, llenwch y ffurflen ar-lein sydd ar gael i'w hagor yn y fan hon:

https://llyw.cymru/diwygiadau-i-gynlluniau-pensiwn-diffoddwyr-tan-yng-nghymru-2020

Neu, caiff ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ymateb arall a ddarperir, a gellir anfon honno ar e-bost i fire@gov.wales neu i'r cyfeiriad isod.

2 Hydref 2020 yw'r dyddiad cau ar gyfer ymateb.

Rhagor o wybodaeth, a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mewnosodwch unrhyw gyfeiriadau i'r we, dogfennau neu wybodaeth a allai fod o fudd i ymgyngoreion, e.e. cyfeiriad gwe yr ymgynghoriad, atodiad manwl i'r ymgynghoriad

Manylion cyswllt I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gangen Gwasanaethau Tân
Yr Is-adran Diogelwch Cymunedol
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

E-bost: fire@gov.wales
Ffôn: 0300 062 8226

Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (y Rheoliad)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data dros unrhyw ddata personol yr ydych yn eu darparu fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn ac a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynglŷn â sut i arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau yn y dyfodol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi mwy ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'n bosibl y bydd trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) yn cael ei gomisiynu i gyflawni'r gwaith hwn. Dim ond o dan gontract y gwneir unrhyw waith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn pennu gofynion llym o ran prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu gyfeiriad gael ei gyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu golygu cyn eu cyhoeddi.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau cyhoeddedig hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Bydd unrhyw ddata amdanoch sy'n cael eu dal fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am ddim mwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl:

- i gael gwybod am y data personol sy'n cael eu cadw amdanoch chi, ac i gael gweld y data hynny
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu atal prosesu (mewn rhai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gludo data (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael mwy o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r ffordd mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, neu os ydych chi am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad GDPR, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:
Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

YMGYNGHORIAD YNGHYLCH NEWIDIADAU I'R CANLYNOL:

- **Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (sef Cynllun 1992) a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (sef Cynllun Digolledu 2007), yn deillio o ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Walker v Innospec.**
- **Cynllun Digolledu 2007 yn deillio o ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos McLaughlin v Adran Cymunedau Gogledd Iwerddon.**
- **Cynllun 1992 a Chynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (sef Cynllun 2007) mewn perthynas â chyfrifo pensiynau dwy ffynhonnell, rhannu pensiwn wrth ysgaru a ffactorau cymudo aelodau arbennig.**
- **Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 (sef Cynllun 2015) mewn perthynas â thaliadau gwerth trosglwyddo clwb.**

RHAGARWEINIAD

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar wahanol newidiadau i wahanol gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân a Chynllun Digolledu 2007 yng Nghymru. Byddai'r cynigion yn diwygio rheoliadau'r cynlluniau er mwyn cydraddoli buddion goroeswr (sef buddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun) mewn rhai amgylchiadau ar gyfer partneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw, a phlant. Mae hyn yn dilyn dyfarniadau'r Goruchaf Lys yn achosion Walker v Innospec[1] a McLaughlin[2] yn eu trefn. Rydym hefyd yn cynnig nifer o newidiadau digyswllt eraill i reoliadau'r cynlluniau er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cael ei diweddaru yn unol â'r cyfarwyddyd a'r arferion cyfredol.

2. Ar adeg cyhoeddi'r papur ymgynghori hwn, roedd y llysoedd heb benderfynu ynghylch y rhwymedi i'r hawlwyr mewn achos arall ar fater pensiynau, sef Sargeant ac others v Yr Ysgrifennydd Cartref ac eraill[3]. Er y gallai goblygiadau'r achos hwnnw fod yn bellgyrhaeddol, nid ydym yn credu eu bod yn debygol o effeithio ar y newidiadau a gynigiwn yn y fan hon. Fodd bynnag, os nad felly y bydd, byddwn ni'n ailadrych ar y cynigion ac yn eu hadolygu yn unol â hynny.

3. Nodir isod ragor o fanylion am y newidiadau arfaethedig. Darperir crynodeb yn Atodiad 1 hefyd, fel ei bod yn hawdd cyfeirio ato.

Buddion goroeswr dan Gynllun 1992 a Chynllun Digolledu 2007

Cydraddoli buddion goroeswr i bartneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw

4. Yn dilyn cyflwyno partneriaethau sifil yn 2005, cafodd Cynllun 1992 ei ddiwygio i ddarparu pensiwn goroeswr i bartneriaid sifil aelodau o'r cynlluniau. Cafodd hyn ei gyfrifo yn unol â buddion gweddwon, ar y sail mai dim ond gwasanaeth pensiynadwy aelodau o'r cynlluniau o 6 Ebrill 1988 ymlaen oedd yn cyfri at ddiben cyfrifo pensiwn

[1] [2017] UKSC 47
[2] [2018] UKSC 48
[3] 2018 EWCA Civ 2844

goroeswr. Mae'r un peth yn gymwys i wŷr a gwragedd o'r un rhyw, yn dilyn cyflwyno priodas i gyplau o'r un rhyw yn 2014. Felly, os bydd aelod o'r cynllun yn marw, byddai gan bartneriaid sifil a gwyr a gwragedd o'r un rhyw hawl i bensiwn goroeswr ar sail gwasanaeth pensiynadwy yr aelodau ers 6 Ebrill 1998 yn unig. Mae darpariaethau tebyg yn gymwys i Gynllun Digolledu 2007

5. Roedd dyfarniad y Goruchaf Lys yn Walker v Innospec yn dal y dylai bod gan bartneriaid sifil a gwŷr a gwragedd o'r un rhyw hawl i'r un hawliau pensiwn goroeswr â'r rhai a roddir i oroeswyr priodasau cyplau o'r rhyw arall. Ystyr hyn yw bod rhaid i bensiynau goroeswyr fod yn seiliedig ar wasanaeth pensiynadwy llawn ac nid cael eu cyfyngu i hawl o 1988 ymlaen neu o unrhyw ddyddiad penodol arall. .

6. Rydym wedi llunio rheoliadau drafft i sicrhau bod Cynllun 1992 a Chynllun Digolledu 2007 yn cydymffurfio â'r dyfarniad hwn. Mae hyn yn dileu'r dyddiad cyfyngiad yn 1988, a byddai'n golygu bod buddion sy'n daladwy i oroeswyr partneriaethau sifil a phriodasau cyplau o'r un rhyw yn dod yn gyson â'r buddion sy'n daladwy i oroeswyr priodasau cyplau o ryw gwahanol. Mae'r newidiadau'n cael eu hôl-ddyddio i 5 Rhagfyr 2005, sef y dyddiad pryd cyflwynwyd partneriaethau sifil.

7. Mae Rhan 3 (darpariaeth yn ymwneud â chyplau o'r un rhyw) Atodlen 1 i Gynllun 1992 yn datgymhwyso'r rhan o Ddeddf Priodas (Cyplau o'r un rhyw) 2013 sydd i bob pwrpas yn cyfartalu priodas i gyplau o'r un rhyw â phriodas i gyplau o ryw gwahanol. Yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Partneriaeth Sifil (Cyplau o ryw gwahanol) 2019, sy'n caniatáu ffurfio partneriaethau sifil rhwng cyplau o ryw gwahanol, nid yw mwyach yn briodol cyfartalu partneriaeth sifil cyplau o ryw gwahanol â phriodas cyplau o'r un rhyw neu bartneriaeth sifil, felly rydym yn cynnig dileu'r ddarpariaeth hon. Mae'r newid hwn yn cael ei ôl-ddyddio i 13 Mawrth 2014, sef y dyddiad pryd cyflwynwyd priodasau i gyplau o'r un rhyw.

Cwestiwn 1: I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y rheoliadau drafft yn cyrraedd y nod o gydraddoli buddion goroeswr ar gyfer goroeswyr partneriaethau sifil a phriodasau i gyplau o'r un rhyw?[4]

Cwestiwn 2: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw faterion cydraddoldeb sydd heb gael sylw yn y fan hon?

Cwestiwn 3: A oes gennych farn arall am y newidiadau sydd yn y rheoliadau drafft?

Dileu cyfyngiadau ar fuddion goroeswyr sy'n daladwy i blant

8. Ar hyn o bryd, mae pob cynllun pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru yn darparu bod hawl gan blant aelodau o'r cynllun pensiwn i gael budd goroeswyr os nad oes gŵr neu wraig yn goroesi. Fodd bynnag, ar ôl adolygu Cynllun Digolledu 2007 canfuwyd nad yw ar hyn o bryd yn gwneud darpariaeth gyfartal i blant rhieni

[4] Gweler rheoliad 4 (Cynllun 1992) a rheoliad 11 (Cynllun Digolledu 2007) o'r rheoliadau drafft.

dibriod. Mae Rhan 3, rheol 3 Cynllun Digolledu 2007 yn darparu na ddylid talu lwfans plentyn nac arian rhodd i rai categorïau, gan gynnwys:-

- plentyn a aned ar ôl i'r aelod o'r cynllun ymddeol ac nad oedd ei rieni yn briod tra oedd yr aelod yn gwasanaethu fel diffoddwr tân.
- llysblant pan ddigwyddodd y briodas ar ôl ymddeoliad.
- plentyn a fabwysiadwyd ar ôl ymddeoliad.

9. Roedd y Goruchaf Lys yn achos McLaughlin yn dyfarnu bod ei bod yn anghyfreithlon gwrthod buddion yn daladwy i (neu ar ran) plant ar sail statws priodasol eu rhieni. Er mai ymwneud â buddion nawdd cymdeithasol yn hytrach na buddion pensiwn y mae dyfarniad McLaughlin, mae Llywodraeth Cymru yn credu y gallai'r cyfyngiadau cyfredol yng Nghynllun Digolledu 2007 gael eu hystyried yn wahaniaethol. Credwn hefyd ei bod yn anghywir gwrthod buddion i blant oherwydd statws priodasol eu rhieni, oherwydd mae'n amlwg nad oes ganddynt hwy reolaeth dros hynny.

10. I ddechrau, roedd darpariaeth Cynllun 1992 yn cynnwys cyfyngiadau tebyg i'r rhai a amlinellir uchod. Fodd bynnag, cafodd y rhain eu disodli yn 2014[5]. Nid yw Cynllun 2007 a Chynllun 2015 yn cynnig cyfyngiad ar hawl chwaith. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio Cynllun Digolledu 2007 er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y cynlluniau pensiwn. Byddai hyn yn dileu'r gwahaniaethu yn erbyn plant cyplau dibriod, yn unol â dyfarniad y Goruchaf Lys. Byddai hefyd yn dileu'r driniaeth wahaniaethol sy'n cael ei chymhwyso ar hyn o bryd i blant dibynnol, llysblant a phlant a fabwysiadwyd, ac unwaith eto rydym yn ei chael hi'n amhosibl cyfiawnhau hyn.

11. Byddai'r newid hwn yn cael ei ôl-ddyddio o'r dyddiad pryd daeth y ddarpariaeth i rym, sef 1 Ebrill 2006.

Cwestiwn 4: A ydych chi'n cytuno bod y newidiadau sydd yn y rheoliadau drafft yn cydymffurfio'n llwyr â dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos McLaughlin?[6]

Cwestiwn 5: A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw faterion cydraddoldeb sydd heb gael sylw yn y fan hon?

Newidiadau digyswllt eraill sy'n ofynnol i'r cynlluniau pensiwn

12. Rhaid gwneud nifer o newidiadau digyswllt eraill i gynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân er mwyn sicrhau cysondeb.

[5] O.S. 2014/3242
[6] Gweler rheoliad 12 o'r rheoliadau drafft.

Cynllun 1992 a Chynllun 2007

Pensiynau o ddwy ffynhonnell

13. Ar hyn o bryd, mae'r ddau gynllun yn caniatau opsiwn "dau bensiwn" os yw diffoddwr tân yn cael gostyngiad yn y cyflog pensiynadwy pan mae'n cael swydd newydd. Mae hyn yn galluogi hawliau pensiwn cyn i'r gostyngiad yn y cyflog gael ei "gadw". Rydym yn cynnig diwygio rheolau'r cynlluniau i egluro mai'r sefyllfa pan fo gan ddiffoddwr tân hawl i ddau bensiwn dan Gynllun 1992 neu Gynllun 2007 yw bod swm y pensiwn cyntaf yn cael eu uwchraddio bob blwyddyn (fel petai'n ddarostyngedig i Ddeddf Pensiwn (Cynnydd) 1971) o adeg y gostyngiad yn y cyflog hyd at ymddeoliad.[7]

14. Mae'r newidiadau i Gynllun 1992 hefyd yn ei gwneud yn glir mai'r sefyllfa pe byddai aelod, ar ôl gwneud y cyfrifiadau ar gyfer dau bensiwn, yn well ei fyd gydag un pensiwn sengl confensiynol wedi'i gyfrifo yn y ffordd arferol, dyma'r pensiwn y dylai fod ganddo hawl iddo. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r geiriad yn dweud yn anghywir y dylai hyn ddigwydd os yw cyfanswm y pensiynau yn "mynd y tu hwnt" i un y pensiwn sengl. Felly, mae'r newid arfaethedig yn ei gwneud yn glir na ddylid dyfarnu dau bensiwn os yw eu cyfanswm "yn is na'r" pensiwn sengl. Cynigir hefyd fân ddiweddariadau eraill i Reol B5A Cynllun 1992.[8]

15. Mae'r newidiadau arfaethedig i Gynllun 1992 yn cael eu hôl-ddyddio i 1 Ebrill 1997 (sef y dyddiad pryd cyflwynwyd Rheol B5A) ac mae'r newidiadau arfaethedig i Gynllun 2007 yn cael eu hôl-ddyddio i 6 Ebrill 2006 (sef y dyddiad pryd daeth Cynllun 2007 i rym).

Rhannu pensiwn wrth ysgaru

16. Wrth ysgaru oddi wrth aelod o'r cynllun pensiwn, gall gwŷr, gwragedd neu bartneriaid sifil gael rhan o'u pensiwn fel credyd. Nid yw Cynllun 1992 a Chynllun 2007 yn ystyried newidiadau i'r ddeddfwriaeth gysylltiol ar rannu pensiwn. Felly, rhaid gwneud newidiadau i ddiweddaru cyfeiriad statudol nad yw'n gyfoes ac i sicrhau bod aelodau o gredyd pensiwn yn parhau i gymudo eu budd fel y caniateir gan y cyfyngiad ar gyfandaliad cymudo bychan fel y nodir yn Neddf Cyllid 2004.

Cynllun 2007

Ffactorau Cymudo Aelodau Arbennig

17. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth cynllun 2007 yn darparu ffactorau cymudo (sef y cyfraddau ar gyfer cyfnewid pensiwn am gyfandaliad) hyd at 65 oed. Fodd bynnag, rydym wedi cael gwybod bod rhai diffoddwyr tân yn gwasanaethu y tu hwnt i'r oedran hwn. Felly, mae angen gwneud newidiadau i ddarparu ar gyfer ffactorau

[7] Rheoliad 3(b) (Cynllun 1992) a rheoliad 7 (Cynllun Digolledu 2007) o'r rheoliadau drafft.
[8] Rheoliadau 3(a), (c) a (d) o'r rheoliadau drafft.

cymudo statudol hyd at 75 oed. Mae'r ffactorau cymudo fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2014 (sef hyd at 65 oed) wedi cael eu hatgynhyrchu yn y tabl a amnewidiwyd ac nid ydynt wedi newid.

Cynllun 2015

Taliadau gwerth trosglwyddo clwb

18. Ar hyn o bryd, mae Cynllun 2015 yn darparu bod diffoddwyr tân sydd â hawliau gwarchodedig yng Nghynllun 1992 a chynlluniau 2007 yn gallu trosglwyddo buddion pensiwn drwy drefniadau trosglwyddo clwb os ydynt yn trosglwyddo rhwng Gwasanaethau Tân yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Fodd bynnag, canfuwyd gwall yn rheoliadau'r cynllun, sy'n golygu y byddai'n rhaid i aelodau sydd â hawliau gwarchodedig yng Nghynllun 1992 drosglwyddo'r rhain i Gynllun 2007. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn na fyddai'n deg pe na bai aelodau cyfredol cynlluniau diffoddwyr tân 1992 yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael ymuno â Chynllun 1992 yng Nghymru wrth drosglwyddo i awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Felly, mae angen newidiadau i gywiro'r gwall hwn ac i ganiatau i drosglwyddiadau o'r fath ddigwydd i'r cynllun.

Cwestiwn 6: A oes gennych farn arall am y newidiadau sydd yn y rheoliadau drafft?

Cwestiwn 7: A allwch chi ragweld unrhyw heriau i'r gwaith o weinyddu'r cynlluniau pensiwn o ran y rheoliadau drafft arfaethedig?

Cwestiwn 8: Mae gennym ddiddordeb mewn deall a fydd y cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori hon yn cael effaith ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig. Dyma'r nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. A ydych chi o'r farn y bydd y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Os ydych chi, pa un neu rai, a pham/pam ddim?

Cwestiwn 9: Byddem yn hoffi clywed eich barn am yr effaith y byddai'r cynigion uchod yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai hyn eu cael? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

Cwestiwn 10: Hefyd, esboniwch sut rydych yn credu y gallai'r polisi arfaethedig gael ei ffurfio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, mae croeso i chi ddefnyddio'r lle hwn i'w nodi.

Y CAMAU NESAF

19. Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd barn ymgyngoreion, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ynghylch pob agwedd ar yr ymgynghoriad hwn erbyn 2 Hydref 2020.

Crynodeb o'r Newidiadau Arfaethedig i Gynlluniau Pensiwn Diffoddwyr Tân yng Nghymru

Newid Arfaethedig	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (1992)	Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) (2007)	Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (2007)	Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (2015)
Buddion goroeswr i gyplau o'r un rhyw / partneriaid sifil	Rheoliad drafft 4. Wedi'i gydraddoli ar gyfer partneriaid sifil a gŵyr a gwragedd o'r un rhyw. Mae'r dyddiad cyfyngiad yn 1988 wedi cael ei ddileu er mwyn caniatau i oroeswr o'r un rhyw gael hawl i fudd goroeswr ar sail gwasanaeth pensiynadwy llawn yr aelod.	Dim effaith	Rheoliad drafft 11. Wedi'i gydraddoli ar gyfer gŵyr, gwragedd o'r un rhyw a phartneriaid sifil. Mae'r dyddiad cyfyngiad yn 1988 wedi cael ei ddileu er mwyn caniatau i oroeswr o'r un rhyw gael hawl i fudd goroeswr ar sail gwasanaeth pensiynadwy llawn yr aelod.	Dim effaith
Buddion goroeswr i blant a aned i rieni dibriod, llysblant a phlant a fabwysiadwyd.	Dim effaith	Dim effaith	Rheoliad drafft 12 Mae'r newidiadau arfaethedig yn dileu'r cyfyngiadau ar hawl i lwfans ar gyfer plant rhieni dibriod, yn ogystal ag ar gyfer plant dibynnol, llysblant a phlant a fabwysiadwyd.	Dim effaith

Hawl i bensiynau o ddwy ffynhonnell.	Rheoliad drafft 3(b). Newid i egluro mai'r sefyllfa pan fo gan ddiffoddwr tân hawl i ddau bensiwn dan Gynllun 1992, mae swm y pensiwn cyntaf yn cael ei uwchraddio bob blwyddyn o'r dyddiad pryd peidiodd y diffoddwr tân ag ennill y cyflog ar y raddfa uchaf. Rheoliadau drafft 3(a), (c) a (d). Mae gan y newidiadau effaith i scirhau nad yw diffoddwr tân dan anfantais oherwydd y ddarpariaeth sy'n caniatau i ddau bensiwn gael eu dyfarnu, wedi'u cyfrifo ar wahân, ar ôl gostyngiad sylweddol yn y cyflog. Cynigir hefyd fân newidiadau eraill.	Rheoliad drafft 7. Newid i egluro mai'r sefyllfa pan fo gan ddiffoddwr tân hawl i ddau bensiwn dan Gynllun 2007 yw bod swm y pensiwn cyntaf yn cael ei uwchraddio bob blwyddyn o'r dyddiad pryd peidiodd y diffoddwr tân ag ennill y cyflog ar y raddfa uchaf.	Dim effaith	Dim effaith
Rhannu Pensiwn wrth ysgaru	Rheoliad drafft 5.	Rheoliad drafft 8.	Dim effaith	Dim effaith

	Cynigiwyd newidiadau i sicrhau bod aelodau o gredyd pensiwn yn parhau i gymudo eu budd fel y caniatair gan y cyfyngiad ar gyfandaliad bychan fel y nodir yn Neddf Cyllid 2004.	Cynigiwyd newidiadau i sicrhau bod aelodau o gredyd pensiwn yn parhau i gymudo eu budd fel y caniatair gan y cyfyngiad ar gyfandaliad bychan fel y nodir yn Neddf Cyllid 2004.		
Ffactorau cymudo aelodau arbennig	Dim effaith	Rheoliad drafft 9. Mae ffactorau cymudo wedi cael eu cynyddu i 75 oed. Felly, rhaid gwneud newidiadau i ddiweddaru'r ddeddfwriaeth yn unol â'r cyfarwyddyd.	Dim effaith	Dim effaith
Taliadau Gwerth Trosglwyddo Clwb	Dim effaith	Dim effaith	Dim effaith	Rheoliad drafft 14. Cynigiwyd newidiadau i gywiro gwall a oedd yn mynnu bod aelodau o gynllun 1992 yn trosglwyddo i gynllun 2007. Mae'r ddarpariaeth wedi cael ei diwygio nawr i gyd-fynd â'r cyfarwyddyd a'r arferion cyfredol.
	.	.	.	.